# Y DDOLEN

## TEULUOEDD WEDI EU HEFFEITHIO GAN GARCHARIAD

## Croeso ...

... i drydydd rhifyn y Newyddlen Teuluoedd Wedi'u Heffeithio Gan Garchariad. Mae'r newyddlen hon wedi bod yn hynod effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth am faterion ac anghenion sy'n wynebu plant a theuluoedd yng ngogledd Cymru sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r newyddlen hon hyd yma, ac os ydych yn dymuno cynnwys erthygl yn rhifynnau'r dyfodol am y gwaith yr ydych yn ei wneud i gefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn, neu ymchwil yr ydych wedi'i gwblhau, cysylltwch â ni.

## YN Y RHIFYN HWN:


Strategaeth newydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi 'Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol'

Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn 'Cerdded yn ôl traed plentyn' yng Ngharchar y Berwyn

Athrawon yn Arwain Gwaith FABI Sir y Fflint

Canfyddiadau Ymgynghoriad FABI yng Ngogledd Cymru

Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn y System Cyfiawnder Troseddol a'r Effaith ar eu Plant

"Beth amdanaf i?" Galw i Weithredu er mwyn Diogelu Plant sydd Wedi'u Heffeithio gan Famau yn y Carchar

Bygythiad 'Llinellau Sirol'

Pact i Redeg Gwasanaeth Cymorth Llys Newydd yng Ngogledd Cymru

Tîm Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru (EAT)

A Ydi'ch Gwasanaeth Wedi'i Gynnwys ar 'Dewis Cymru'?

Adnoddau Defnyddiol Eraill


## Strategaeth newydd 'Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol' y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i amlygu Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad fel Arfer Da

Yn rhifyn cyntaf y newyddlen hon roedd adroddiad ynglŷn ag Adolygiad yr Arglwydd Farmer, a oedd yn dweud y dylid ystyried cysylltiadau teuluol yn 'llinyn euraidd' pwysig gydol y system cyfiawnder troseddol. Os oes perthnasau cryf, diogel a chefnogol rhwng troseddwyr a'u teuluoedd gall helpu pobl i fod yn llai tebygol o droseddu eto, a gall helpu i liniaru ar effaith bosib ar blant pobl yn y carchar.

Mae'r Strategaeth yn dal yn cael ei datblygu ac mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gweithio gyda throseddwyr, teuluoedd a phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Pact (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal mewn Carchardai), Barnardo's a G4S er mwyn sicrhau fod y strategaeth yn un gwerth chweil i droseddwyr a'u teuluoedd. Meinir Edwards a James Searle sy'n arwain y gwaith, a bydd James yn dod i gyfarfod nesaf Grŵp Llywio Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad, er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau ynglŷn â chynnydd y Strategaeth. Bydd y Strategaeth yn amlygu Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad fel enghraifft o arfer da. Meinir Edwards a James Searle sy'n arwain y gwaith, a mynychodd James gyfarfod Grŵp Llywio Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad ym mis Gorffennaf i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau ynglŷn â chynnydd y Strategaeth. Bydd y Strategaeth yn amlygu Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad fel enghraifft o arfer da.

I gael mwy o wybodaeth anfonwch neges e-bost at: james.searle@noms.gsi.gov.uk, neu cadwch lygad ar y newyddlen i gael y diweddaraf!

***Ysgrifennwyd yr erthygl hon gan James Searle, Arweinydd Datblygu Carchardai Sector Cyhoeddus, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru.***

Gwefan i Ddod yn Fuan.......Bydd gwefan rhaglen ar gael cyn hir ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Felly byddwch yn gallu dilyn gwaith y rhaglen a rhannu eich profiadau.



# Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn 'Cerdded yn ôl traed plentyn' yng Ngharchar y Berwyn

Ar 3 Gorffennaf cafodd swyddogion - gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth – o Wasanaethau Addysg a Phlant awdurdodau lleol gogledd Cymru gyfle i 'gerdded yn ôl traed plentyn' yn ystod 'ymweliad' yng Ngharchar y Berwyn. Tîm Rhanbarthol Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad a drefnodd yr ymweliad mewn partneriaeth â Charchar y Berwyn, ac yn arwain y dydd roedd Dirprwy Gyfarwyddwr y Prosiect, Nick Dann, a Sarah Kettle, Rheolwr Rhanbarthol Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad.

Aeth Sandra Edwards o Pact, darparwr ymweliadau Carchar y Berwyn, â'r swyddogion i'r Neuadd Ymweliadau lle cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau, yr effaith ar blant a theuluoedd, a'r cyswllt sydd gan Pact â'r gymuned. Bu'r swyddogion hefyd yn gweld llyfrgell a choleg y carchar, a chlywed o lygad y ffynnon gan dri dyn yn yr Uned 'Teuluoedd yn Gyntaf' am effaith carchariad ar eu plant, a'r ffordd yr oeddent wedi gwella'u perthnasau â'u plant a hwythau dan glo.

Cafwyd cefnogaeth yn ystod yr ymweliad gan Dditectif Arolygydd Helen Douglas (Swyddog Arweiniol Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod), Sian Griffiths (Swyddog Arweiniol Addysg o Ganolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru), Caroline Pritchard (Swyddog Rhaglen i Deuluoedd Gogledd Cymru yr Effeithir Arnynt gan Garchariad), Emma Baines a Jamie Warr o Gyngor Sir y Fflint a Norah Keller a Stephen Morley o Garchar y Berwyn.

*"Roedd hwn yn gyfle gwych i gwrdd â'n partneriaid yn y gwasanaethau addysg a phlant ledled gogledd Cymru, a siarad am ein gobeithion a'n uchelgeisiau o ran gwella bywydau teuluoedd yn y rhanbarth. Credaf yn gryf y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn ym mywydau plant, teuluoedd, rhieni a neiniau a theidiau'r dynion sydd yn ein gofal, drwy weithio gyda'n gilydd. Rwyf wastad wedi gobeithio drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn ddechrau meddwl sut i atal troseddu rhag pontio'r cenedlaethau yn y dyfodol yng ngogledd Cymru, ac yn y cyfarfod hwn mae hynny i gyd wedi dechrau."*



**Nick Dann, Dirprwy Gyfarwyddwr Prosiect, Carchar y Berwyn**

*"Bûm yn ymweld â Charchar y Berwyn yn ddiweddar fel rhan o'r 'Rhaglen i Deuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad' ac roedd yn addysgiadol i weld y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi teuluoedd, yn enwedig plant. Pan mae aelod o'r teulu yn y carchar mae'n medru cael effaith drom ar les plant, ond mae'r Rhaglen yn mynd i'r afael â hynny mewn ffordd flaengar a rhagweithiol dros ben. Un o uchafbwyntiau'r ymweliad i mi oedd clywed gan y tri dyn yn yr Uned Teuluoedd yn Gyntaf am eu profiadau, ac yn sicr fe wnaeth hynny bwysleisio mor bwysig yw'r gwaith hwn i bawb o dan sylw. Byddwn yn bendant yn cydweithio gyda'r rhaglen hon gan y gallwn weld manteision enfawr i'r teuluoedd, ac yn enwedig felly'r plant yr effeithir arnynt, o ran cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad yn y dyfodol."*

**Geraint Davies,**
**Prif Reolwr Cymorth Addysg,**
**Cyngor Sir Ddinbych**

*"Roedd hi'n fuddiol ymweld â Charchar y Berwyn a chafodd swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn syniad da o anghenion y carcharorion a'u teuluoedd. Wrth wrando ar y dynion yn ystod yr ymweliad roedd hi'n amlwg fod yno rwydweithiau da'n eu cefnogi yn y carchar. O ddiddordeb mawr i mi oedd yr adain deuluol, lle mae carcharorion y mae eu teuluoedd o bwys mawr iddynt yn cael eu cadw gyda'i gilydd. Braf oedd gweld fod cyrsiau ar gael i ategu hynny, a oedd yn cryfhau cysylltiadau'r carcharorion â'u teuluoedd gartref.*

*Dangosodd hynny imi fod arnom angen, fel gwasanaeth, darparu gwybodaeth a chyngor i deuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt a chwblhau'r cylch, gan nad yw'r cymorth y mae'r dynion yn amlwg yn ei gael yng Ngharchar y Berwyn ar gael bob amser i'w teuluoedd ar hyn o bryd.*

*Ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw bywyd teuluol a chynnal y cysylltiad rhwng y rhiant yn y carchar a'i blant gartref (pan mae'n ddiogel i wneud hynny). Yn y dyfodol, rydyn ni'n gobeithio cefnogi teuluoedd yr effeithir arnynt gan garchariad, yn gyntaf drwy gysylltu â phob teulu ar Ynys Môn a rhannu taflen sy'n esbonio ble i ddod o hyd i gyngor a gwybodaeth pan mae angen, ac yn ail drwy sefydlu grŵp cymorth ar yr ynys a fydd o dan arweiniad y gymuned. Mae adnabod yr angen a'i fesur yn gam cyntaf pwysig iawn, ac rydym yn ffyddiog y gallwn gryfhau ein perthynas â Charchar y Berwyn a charchardai eraill wrth gyflawni hynny yn y dyfodol agos."*

**Llyr ap Rhisiart,**
**Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal,**
**Cyngor Sir Ynys Môn a Cerys Kellet, Swyddog Denu Talent.**

# Athrawon Sir y Fflint ar flaen y gad wrth gefnogi plant Teuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad

Ar ôl derbyn hyfforddiant 'Dedfryd Gudd' gan Barnardo's Cymru, mae 30 aelod o staff ledled Sir y Fflint wedi ymrwymo i fod yn 'Bwyntiau Cyswllt Unigol' ar gyfer plant yr effeithir arnynt gan garchariad a'u teuluoedd. Roedd yr hyfforddiant yn dreiddgar a chafodd gryn effaith, ac mae'r penaethiaid, athrawon a staff cefnogi o nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dweud eu bod bellach yn teimlo'n hyderus ac yn meddu ar y gallu i roi gwell cefnogaeth i'r grŵp yma, sy'n aml yn mynd yn angof.

Mae'r Pwyntiau Cyswllt Unigol wedi bod yn defnyddio'r adnoddau a argymhellwyd yn yr hyfforddiant, ond hefyd wedi bod yn creu eu hadnoddau eu hunain fel llyfrau a thaflenni gwaith er mwyn cefnogi plant pan fyddant yn ymweld â'u rhieni yn y carchar, yn ogystal â chyn ac ar ôl hynny. Cyfeiriwyd teuluoedd at asiantaethau fel y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar Blant Troseddwyr (NICCO), PACT a Family Lives a rhoddwyd posteri gwybodaeth ar hysbysfyrddau ysgolion, Twitter a gwefannau ysgolion.

Ffurfiwyd grŵp cymorth i athrawon hefyd – Grŵp Cymorth Teuluoedd Sir y Fflint yr Effeithir Arnynt gan Garchariad – er mwyn dod â staff ynghyd i rannu syniadau, adnoddau, ymchwil diweddar ac yn y blaen. Daeth llawer o bobl i gyfarfod cyntaf y grŵp i glywed cyflwyniadau gan Kevin Kenealy a Paul Handley o'r Uned Ymyriadau Teuluol yng Ngharchar Altcourse yn Fazakerley, a fu'n sôn am eu gwaith yn cryfhau cysylltiadau rhwng dynion a'u teuluoedd. Yn y cyfarfod hefyd oedd Sara Kettle a Catherine Pritchard, swyddogion rhanbarthol y rhaglen Teuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad, a fu'n trafod gwreiddiau'r rhaglen ranbarthol, ei swm a'i sylwedd a'r hyn y canolbwyntiwyd arno. Mae hyn yn rhan o waith Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, ac mae cysylltiadau â Charchar y Berwyn.

Gan edrych i'r dyfodol, mae syniadau ar y gweill yn cynnwys mwy o ymweliadau â'r carchar, creu partneriaethau rhwng ysgolion a carchardai, a chydweithio er mwyn gwella'r modd y caiff plant yr effeithir arnynt gan garchariad eu hadnabod a'u cefnogi, boed hynny yn yr ysgol neu ar lefel Sirol.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag Emma Baines o Gyngor Sir Y Fflint ar: Emma.Baines@flintshire.gov.uk  Fel arall, cysylltwch â'r tîm rhanbarthol os ydych chi'n gweithio mewn ysgol neu gydag ysgol a'ch bod yn dymuno rhoi cefnogaeth yn yr ysgol i blant sydd ag aelodau o'u teuluoedd yn y carchar.

***Darparwyd yr erthygl hon gan Emma Baines, Adran Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint.***

# Y diweddaraf am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod - Dewch i gwrdd â Thîm Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru

Mewn rhifynnau blaenorol o'r newyddlen rydym wedi amlygu'r Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan sôn am 'garcharu rhiant' fel un o'r profiadau niweidiol hynny.  Datblygwyd 'Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd – Mynd i'r Afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Meithrin Cydnerthedd' ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, y pedwar o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, y pedwar o Heddluoedd ledled Cymru a phartneriaid allweddol eraill. Y nod yw trawsnewid y dulliau traws-sefydliadol o ymdrin â phobl ddiamddiffyn yng Nghymru a defnyddio dull amlasiantaethol sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac sy'n galluogi ymyrryd yn gynnar ac atal problemau wrth eu gwreiddiau.

Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar waith ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddatgelodd fod 47% o'r oedolion sy'n byw yng Nghymru (18-69 oed) wedi cael mwy nag un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod, a 14% wedi cael pedwar Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod neu fwy (cyn iddynt droi'n ddeunaw oed). Roedd hynny'n cynnwys 23% a oedd wedi cael camdriniaeth eiriol; 17% wedi cael camdriniaeth gorfforol; a 10% wedi cael camdriniaeth rywiol. Ar yr aelwyd, roedd 20% wedi cael profiad o'u rhieni'n gwahanu; 16% wedi cael profiad o drais domestig; 14% wedi cael profiad o afiechyd meddwl; 14% wedi byw ar aelwyd yr effeithiwyd arni gan gamddefnyddio alcohol yn effeithio arni a 5% gan ddefnyddio cyffuriau; magwyd 5% ar aelwyd lle'r oedd rhywun yn y carchar.

Mae'r tîm a fydd yn gweithredu'r rhaglen yng ngogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu ac yn gweithio'n agos gyda thîm Teuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad, gan ystyried fod 'rhiant yn y carchar' yn ffactor allweddol o ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Fe gewch chi fwy o wybodaeth ynglŷn â'r rhaglen drwy gysylltu â Swyddog Cymorth Busnes y tîm - sara.worland@nthwales.pnn.police.uk




***Llun: Tîm Rhaglen FABI Gogledd Cymru â Thîm Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru: Ditectif Prif Arolygydd Helen Douglas (Arweinydd Heddlu) a Vicky Jones (Arweinydd Partneriaeth)***

***Darparwyd yr erthygl hon gan Dditectif Brif Arolygydd Helen Douglas, Swyddog Arweiniol Heddlu Gogledd Cymru a Vicky Jones, Swyddog Arweiniol Partneriaeth Gogledd Cymru – o Raglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd***

# Canfyddiadau Ymgynghoriad FABI yng Ngogledd Cymru




*Action for Children Family Help Centre & Help Hub, HMP Grampian*




Yn ystod mis Mai a Mehefin, cwblhaodd Tîm Rhaglen FABI ymarfer ymgynghori adrannol gyda sefydliadau sy'n gweithio â phlant a theuluoedd Gogledd Cymru, yn cynnwys y rheiny yn y system cyfiawnder troseddol. Nod y gwaith oedd deall tirwedd Gogledd Cymru ymhellach, yn enwedig beth mae'r ardal wedi bod yn ei wneud i gefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan garchariad a beth ellir ei wneud yn y dyfodol i ddarparu ymyrraeth gynt a chefnogaeth wedi'i thargedu yn well.

Dyma rai o'r prif bethau a ddaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad:

- mae 86% o'r ymatebwyr mewn cysylltiad â phlant a/neu deuluoedd sydd ag aelod o'r teulu mewn carchar;
- nifer cyfyngedig yn unig o'r ymatebwr sy'n cofnodi nifer y plant sydd â rhiant mewn carchar, fodd bynnag, o'r rheiny nad ydynt yn cofnodi unrhyw wybodaeth am blant yr effeithir arnynt gan rieni mewn carchar, teimla'r mwyafrif y byddai hyn yn rhywbeth y gallent ei wneud yn y dyfodol;
- mae 72% yn darparu cymorth i'r plant a/neu'r teuluoedd hyn, fodd bynnag, mae llawer o hyn o ganlyniad i ofynion cymorth eraill, yn hytrach nag wedi'i dargedu i'r angen penodol hwn;
- mae 100% yn ymwybodol bod 'Rhieni Wedi'u Carcharu' yn Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a hoffai 75% ohonynt fwy o wybodaeth am hyn; a
- byddai 69% â diddordeb mewn dysgu mwy am hyfforddiant 'Dedfryd Gudd.'

Er bod y raddfa ymateb yn is na'r disgwyl, mae'r Tîm Teuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad yn credu ei fod yn rhoi syniad da o ddarlun Gogledd Cymru. Diolch i bob un o'r sefydliadau hynny a dreuliodd yr amser yn llenwi'r holiadur hwn, bydd y tîm mewn cysylltiad os oes cais wedi ei wneud am hynny. Cwblheir ymgynghoriad dilynol mewn tua 18-24 mis.

## Ymatebion Ymgynghoriad – Rhai Bylchau a Rhwystrau a amlygwyd:

- adnabod a thrwy hynny rhwystro/oedi cymorth
- rhannu data
- pellter o gartref y sefydliad diogel – yn enwedig i ferched a throseddwyr ifanc
- diffyg atgyfeiriadau o ganlyniad i ymwybyddiaeth wael am yr effaith
- aelodau staff ddim yn ddigon gwybodus am yr effaith a'r cymorth sydd ar gael
- diffyg dialog strategol rhwng rhanddeiliaid felly'n rhwystro dull cyfannol
- diffyg cyfleoedd i staff gwblhau hyfforddiant 'Dedfryd Gudd.'

## Ymatebion Ymgynghoriad – Roedd yr Anghenion Penodol a amlygwyd yn cynnwys:

- ymyrraeth gynharach a chyflymach
- deall a chymorth i anghenion arbennig, heb stigma
- bod â rhywun i siarad â nhw yn gyfrinachol
- mynediad hawdd at wybodaeth berthnasol yn cynnwys gwybodaeth gyffredin ynghylch ystâd carchar a beth i'w ddisgwyl
- helpu i gynnal cysylltiad â'r aelod teulu mewn carchar yn cynnwys cymorth am berthnasau, cefnogaeth ariannol a goresgyn rhwystrau pellter
- helpu â materion cymhleth sy'n codi gan y troseddwr, megis trais yn y cartref neu droseddau rhywiol
- cymorth i blant sy'n dod yn ofalwyr ifanc, yn enwedig pan fydd rhiant yn mynd i garchar ac i blant yn yr ysgol
- cymorth ag arian a thai

***Uchod ar y chwith: Tîm Rhaglen i Deuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad Gogledd Cymru: Sara Kettle - Rheolwr Rhaglen (dde) a Catherine Pritchard (chwith) - Rheolwr Rhaglen***

# Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn y System Cyfiawnder Troseddol a'r Effaith ar eu Plant



ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

**Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod y nifer o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn llai mewn gwirionedd na'r nifer sy'n dod o'r cyhoedd yn gyffredinol, a bod gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn diogelu pobl rhag y risg gyffredinol o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.**


Serch hynny, mae cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael eu hunain yn y carchar, a hynny am resymau cymhleth iawn. Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod nifer o grwpiau mewn mwy o berygl o droseddu, gan gynnwys pobl o gefndiroedd dan anfantais gymdeithasol, pobl sydd wedi cael anawsterau yn y lluoedd arfog fel afiechyd meddwl neu anaf corfforol, neu'r rhai hynny sydd wedi cael trafferth dod i arfer â bywyd allan o'r lluoedd arfog. Pan gaiff y rhain eu cyfuno â ffactorau eraill fel profiadau o ymladd a dioddef trawma yn y lluoedd arfog, arwahanrwydd cymdeithasol a chamddefnyddio alcohol, gallant gyfrannu'n helaeth at y troseddau y mae cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn eu cyflawni.

Mae'r effaith emosiynol ar deuluoedd cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd yn y carchar, ac yn enwedig felly ar y plant, wedi'i gymharu â'r profiadau a gawsant pan oedd y rhiant yn gwasanaethu yn y Lluoedd (gweler y diagram). Mae tarfu ar drefn arferol y plentyn a'r pwysau ychwanegol sydd ar y rhiant sy'n ceisio ymdopi ar ei phen/ben ei hun yn arwain at drafferthion gydag ymddygiad, cymhelliant i wneud gwaith ysgol a theimladau o golled, yn ogystal â phoeni am y rhiant sy'n absennol. Mae'n anodd integreiddio'n ôl wedi bod yn y carchar, gan fod y plentyn wedi gorfod dod i arfer â pheidio gweld y fam neu'r tad, ac yn cael trafferth mynd yn ôl i'r hen drefn. Mae'n hawdd gweld mor debyg yw hyn i ddedfryd o garchar, ac os yw'r plentyn eisoes wedi bod ar wahân o'r rhiant pan oedd yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, mae carchariad y rhiant yn ergyd drom arall.

Felly pa fath o gymorth sydd ar gael i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y carchar? Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ariannu amrywiaeth o brosiectau yng ngogledd Cymru, ac erbyn hyn mae yno ddau Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog pwrpasol wedi'u cyflogi gan awdurdodau lleol. Un o'r partneriaid allweddol yw SToMP, a ddatblygwyd gan Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru. Gyda'r arian gan y Weinyddiaeth Amddiffyn maent yn gweithio â chyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y system cyfiawnder troseddol o'r adeg y caiff yr heddlu ei galw, i'r ddalfa, y llys, gwasanaeth prawf, y carchar ac adsefydlu yn y gymuned.

Mae Swyddogion Cyswllt Carchardai SToMP wedi gweithio i sicrhau y dilynir arferion gorau ac i annog cyn-aelodau o'r lluoedd arfog i gadw mewn cysylltiad â chymuned ehangach y lluoedd arfog. Mae'r Lluoedd Arfog wastad wedi cynnig rhwydwaith cryf o gymorth, ac yn aml iawn dyma'r ffordd orau o helpu'r troseddwyr a'u teuluoedd. Gall elusennau milwrol fel y Lleng Brydeinig a Chymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol i deuluoedd cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, ac maent hefyd yn aelodau o Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda thîm Teuluoedd yr Effeithir Arnynt gan Garchariad er mwyn ymchwilio ymhellach i gyfleoedd i gefnogi plant a theuluoedd cyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd yn y system cyfiawnder troseddol, gan weithio mewn partneriaeth i wella'r dewisiadau sydd ar gael i gymuned y lluoedd arfog yng ngogledd Cymru.




***Lluniwyd yr erthygl hon gan Ian Langton, Swyddog Cyswllt Carchardai SToMP; Janette Williams, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, gogledd-ddwyrain Cymru; a Stephen Townley, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, gogledd-orllewin Cymru.***



“ Beth Amdanaf i? ”

*Ffynhonnell y ddelwedd: Plant i Garcharwyr Ewrop (COPE)*

## Galw i Weithredu Er Mwyn Diogelu Plant Sydd Wedi'u Heffeithio gan Famau yn y Carchar

*"Mae'n anodd pan mae dy fam yn y carchar...hi yw'r un sydd i fod i edrych ar dy ôl di", dywedodd* Malik (13 oed) Cytunodd Tyler (12) : *"Mam sydd yn eich gwneud chi'r person ydych chi."* Mae Malik a Tyler yn ddau o'r 25 o bobl ifanc yr ymgynghorwyd ar gyfer Adroddiad Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, sy'n edrych ar yr effaith o gael mam yn y system cyfiawnder troseddol, ar blant. Mae'r adroddiad Beth Amdanaf i? yn rhoi llais i rai o tua 17,240 o blant a gaiff eu heffeithio gan garchariad mamau bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Dywedon nhw am y trawma o gael eu gwahanu oddi wrth eu mam; y gofid a'r golled o beidio â'i chael hi yno, a'r anhawster o geisio egluro ei habsenoldeb i eraill; a'r aflonyddwch i bron bob agwedd o'u bywydau, yn cynnwys tai, addysg, iechyd, a lles. I fwyafrif o blant, eu mam yw eu prif ofalwr a'r person maent agosaf ati. Er hynny, prin yr ystyrir hwy, a'r canlyniadau o arwahanu, mewn trafodion cyfiawnder troseddol. Gwneir penderfyniadau am faterion pwysig fel cyswllt gyda'u mam, heb wrando ar y ffordd mae'r plant eu hunain yn teimlo a heb gydnabod bod teimladau yn newid dros amser. Fel y dywed Katelyn (15) yn yr adroddiad, *"Rwyf eisiau caniatâd i fod yn flin gyda fy mam, a'i cholli hi ar yr un adeg. Os rwy'n dweud nad ydw i eisiau ei gweld hi, nid yw hynny'n golygu am byth – rwyf eisiau gallu newid fy meddwl."*


Mae'r adroddiad yn ategu beth arall ellir ei wneud er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Amlygodd ymarferwyr ac academyddion y gwahaniaeth a wneir pan mae plant yn cael cyswllt gyda'u mam cyn gynted â phosib wedi carchariad. Er bod ymweliadau dechreuol yn aml yn anodd, mae gwybod bod eu mam yn ddiogel yn gallu helpu. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod mentrau megis Ymweld â Mam, a phartneriaethau rhwng Pact a Sova i blant Cymru, yn hanfodol er mwyn lleddfu pryder a darparu cefnogaeth emosiynol hanfodol. Yn anffodus, nid yw cyllid ar gyfer Ymweld â Mam wedi parhau, gan adael nifer o blant i ymdopi ar eu pennau eu hunain gyda'u hofnau, eu dryswch, a'u colled.

Fe wnaeth yr ymgynghorwyr ifanc nodi argymhellion allweddol yr adroddiad, fel y dywed Megan (11): *"Rwy'n edifar na chafodd mam gefnogaeth, fel na fyddai wedi cyrraedd y pwynt hwn."* Y ffaith yw, nad carchar yw'r ateb bob amser, ac mae merched yn elwa mwy o gael cefnogaeth yn y gymuned sy'n mynd i'r afael â'r materion sylfaenol. Dyna'r rheswm bod yr adroddiad yn galw am ragdybiaeth yn erbyn dedfrydau byr, ac i fuddsoddi mewn canolfannau merched fel y gall lleoliadau megis Canolfan Merched Gogledd Cymru ddarparu'r gefnogaeth ardderchog y maent yn enwog amdano, yn rhydd o bryderon am gyllideb. Fel mae'r adroddiad yn dangos, mae'r plant eu hunain, yn gwybod beth sydd angen ei wneud. Mae Beth Amdanaf i? yn galw i weithredu.

***Darparwyd yr erthygl hon gan Sarah Beresford. Mae Sarah Beresford yn Aelod Cysylltiol o Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai ac yn awdur Beth Amdanaf i? Mae copïau caled o'r adroddiad ar gael o info@prisonreformtrust.org.uk***



***Ffynhonnell y ddelwedd: Canolfan Gymorth a Chymorth Teulu Gweithredu dros Blant, HMP Grampian***



***Ffynhonnell y ddelwedd: Plant i Garcharwyr Ewrop (COPE)***




ATCM Violence and Vulnerability Unit
Supported by the Home Office and The Mayor's Office for Policing & Crime

# 'Llinellau Sirol' a'r Bygythiad i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed

*'Llinellau sirol' yw term yr heddlu am gangiau a rhwydweithiau troseddol trefnus sy'n cyflenwi cyffuriau i ardal neu ardaloedd [yn y Deyrnas Gyfunol] gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol pwrpasol neu 'linellau delio.' Maent yn debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion diamddiffyn i symud a chadw cyffuriau ac arian, a byddant yn aml yn gwneud hyn drwy roi pwysau ar bobl, codi ofn arnynt a defnyddio trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.*

Fel arfer, nid yw'r oedolion a phobl ifanc y mae'r gangiau'n eu defnyddio fel hyn yn aelodau o'r gang, ond gallant gael eu hunain yn y carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc o ganlyniad i gal eu dal gan yr heddlu gyda llawer o gyffuriau arnynt. Tra byddant yn y carchar bydd disgwyl iddynt gadw'n dawel, a gallant wynebu trais a chamfanteisio gan garcharorion eraill. Maent yn debygol o fynd i ddyled o ganlyniad i gael eu harestio (gan y bydd yr heddlu wedi cymryd unrhyw gyffuriau/arian yn dystiolaeth) ac o ganlyniad i hynny bydd yn andros o anodd iddynt dorri'n rhydd o ddylanwad y gangiau. Mae plant a theuluoedd sydd â rhywun yn y carchar hefyd dan fygythiad gan y gangiau, yn enwedig pan mae dyledion i'w talu.

Mae Llinellau Sirol yn rhai cymhleth ac mae'n anodd dehongli a diffinio gangiau, a grwpiau troseddol trefnus; cafwyd trafferthion fel hyn yn yr Unol Daleithiau hefyd. Fodd bynnag, wrth gynnal ei 'Adolygiadau Ardal' mae Uned Trais a Phobl Ddiamddiffyn y Swyddfa Gartref wedi clywed mewn cymunedau a charchardai fod gwella'r modd y mae partneriaid yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth effeithiol o'r mater hwn a mynd i'r afael ag ef cyn i broblem gynyddol fynd yn waeth. Mae adolygu'r modd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i rhannu yn ffordd dda o amlygu ble mae rhwystrau, bylchau a chyfleoedd yn bodoli.

Gallai cael yr Unedau Troseddu Trefnus Difrifol newydd a'r unedau cudd-wybodaeth rhanbarthol i gydweithio'n agos ag unedau lleol a rhanbarthol yr heddlu helpu wrth ddatblygu cynllun casglu data pendant a allai amlygu'r bylchau presennol yn hyn o beth. Wrth lunio unrhyw gynllun gweithredol mae'n hanfodol fod teuluoedd, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â grwpiau diamddiffyn yn ymwybodol o'r pwysau sydd yno ar bobl y mae gangiau'n camfanteisio arnynt, a bod angen adnabod yr arwyddion o ran Llinellau Sirol.

**I gael mwy o wybodaeth a chymorth gyda gwaith yn y dyfodol, cysylltwch ag awduron yr erthygl hon yn yr Uned Trais a Phobl Ddiamddiffyn:** michaelcmcnally1@gmail.com **a Paul Cullen at:** sgoservices@outlook.com **neu ewch i:** http://vvu-online.com

## PAM FOD GWEITHIO I GANG YN OPSIWN I BOBL IFANC?

Angen rhywun i'w hamddiffyn, diogelwch, diffyg arweiniad teuluol a modelau rolau, trafferthion gydag ymlyniad, tlodi, angen am statws, diflastod, yr apêl o gael arian parod yn gyflym ac yn rhwydd, agweddau materialistig, teulu'n ymwneud â throseddu, y ffaith bod gangiau'n ymddangos yn cŵl, a bod arnynt angen teimlo'n cŵl ac yn ddeniadol.

## CYMRYD MANTAIS - AM BETH MAE'R GANGIAU'N CHWILIO?

Pobl ifanc mewn trallod emosiynol - yn dweud pethau emosiynol ar Facebook, Snapchat, Instagram a gwefannau cyfryngau cymdeithasol eraill.

Pobl ifanc ag anawsterau ymlyniad, fel y rheiny sy'n mynd ar goll yn gyson, plant sy'n derbyn gofal – neu rieni sengl diamddiffyn.

Y rheiny y mae angen arian arnynt, neu sy'n chwilio am ychydig o gyffuriau fel canabis

Y rheiny sy'n mynd ati'n fwriadol i weithio i gangiau – oedolion a phlant

Unigolion ag anawsterau dysgu – oedolion a phlant



## PAM FOD GWEITHIO I GANG YN OPSIWN I BOBL DDIAMDDIFFYN?

Cyffuriau am ddim, rhywun i'w hamddiffyn (rhag y gang ei hun a gangiau eraill), diogelwch, trafferthion gydag ymlyniad, tlodi, yr apêl o gael arian parod yn gyflym ac yn rhwydd, agweddau materialistig, diffyg ymwybyddiaeth o'r peryglon.

# Pact i Redeg Gwasanaeth Gymorth Llys Newydd yng Ngogledd Cymru

Fel y cyfeiriwyd ato yn y Newyddlen FABI diwethaf, mae Pact (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan garcharu trwy ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i blant a theuluoedd carcharorion, a'r carcharorion eu hunain.

Yn ogystal â bod yn ddarparwr ymgysylltiad teulu yn Ei Mawrhydi Berwyn yn Wrecsam a charchardai eraill, mae Pact wedi derbyn grant yn ddiweddar gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay, er mwyn sefydlu gwasanaeth gymorth llys newydd - prosiect 'Ffordd Adref' - yng Ngogledd Cymru; bydd hyn yn cefnogi plant a theuluoedd carcharorion i gynnal eu lle a'u cartrefi mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru.

Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu gwirfoddolwyr mewn llysoedd yng Ngogledd Cymru yn cynnwys Caernarfon, Llandudno, Yr Wyddgrug, Wrecsam a'r Trallwng. Gall wirfoddolwyr llysoedd helpu teuluoedd baratoi ar gyfer mynd i'r llys a rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol yn ystod yr amser anodd hwn. Bydd Pact hefyd yn hyfforddi mentoriaid cymuned i gefnogi teuluoedd yn eu cymunedau eu hunain. Darperir hyfforddiant llawn a threuliau. Bydd gwasanaeth arbrofol yn dechrau ar 3 Medi.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy, neu os hoffech wirfoddoli, cysylltwch â Lynne Nicklin, Cydlynydd Gwirfoddoli: Lynne.nicklin@prisonadvice.org.uk
Gweler gwefan Pact hefyd: www.prisonadvice.org.uk

## A Yw Eich Gwasanaeth Wedi'i Gynnwys ar 'Dewis Cymru'?

Gwefan newydd yw 'Dewis Cymru' i helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau cefnogi lleol yng Nghymru ac i ganfod yr wybodaeth y maent ei hangen i wella eu hunan les a chael mynediad i wasanaethau lleol yng Nghymru.

Mae'n bwysig a'r cyntaf i Gymru ac mae'n creu pwynt mynediad unigol, clir a dibynadwy y gall aelodau o'r cyhoedd ei ddefnyddio yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau. Y 22 awdurdod lleol ar draws Cymru sy'n ei ddarparu fel rhan o'u gwasanaethau Gwybodaeth, Cynghori a Chynorthwyo.

Ar hyn o bryd mae'r wefan yn cynnwys cyfeiriadur o dros 6,200 o sefydliadau lleol a chenedlaethol a gwasanaethau yn cynnwys y rhai hynny gaiff eu darparu gan gynghorau lleol, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a busnesau.

Os ydych yn darparu gwasanaeth lleol all gefnogi plant a theuluoedd a gaiff eu heffeithio gan garchariad, yna ychwanegwch y gwasanaeth i'r cyfeiriadur drwy fynd i www.dewis.wales i gael rhagor o wybodaeth. Mae'n gyfan gwbl AM DDIM felly beth am roi cynnig arni!

***Darparwyd yr wybodaeth ar gyfer yr erthygl hon gan Richard Palmer a Jodie Phillips o Dewis Cymru.***

## Adnoddau Defnyddiol Eraill

Gellir cael mynediad at newyddlenni ac adnoddau eraill gan y sefydliadau canlynol drwy gysylltu â nhw ar-lein:

Canolfan Wybodaeth Cenedlaethol i Blant i Droseddwyr :

**https://www.nicco.org.uk/**

Partneriaid Carcharorion :

**http://www.partnersofprisoners.co.uk/**

Gweithredu dros Deuluoedd Troseddwyr a Charcharorion :

**https://www.familylives.org.uk**

**Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r gwaith, cysylltwch â:**

**Sara Kettle, Rheolwr Rhaglen FABI ar sara.kettle@wrexham.gov.uk/01978 292453 neu**

**Catherine Pritchard, Swyddog Rhaglen FABI ar Catherine.pritchard@wrexham.gov.uk / 01978 292444**